Tribiwnlys Adolygu Iechyd Meddwl Cymru | Mental Health Review Tribunal for Wales

# Canllaw
# Beth sy'n digwydd yng ngwrandawiad y Tribiwnlys

Tribiwnlys Adolygu Iechyd Meddwl Cymru
Llawr 2, Adeiladau'r Goron
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ
Ffôn: 0300 025 5328
Ffacs: 0300 025 7331
E-bost: mhrt@wales.gsi.gov.uk

Fersiwn1.4 – Ebrill 2017

## Beth sy'n digwydd mewn gwrandawiad Tribiwnlys?

Dyletswydd y Tribiwnlys yw penderfynu, ar adeg y gwrandawiad, a oes anhwylder meddwl arnoch, sydd o fath o anhwylder a / neu a yw'n ddigon difrifol i olygu bod angen i chi fod mewn ysbyty neu'n destun Gorchymyn o dan y Ddeddf Iechyd Meddwl. I gynorthwyo'r Tribiwnlys i wneud y penderfyniad hwn, bydd y panel yn darllen yr adroddiadau a baratowyd gan eich tîm gofal (eich meddyg, gweithiwr cymdeithasol ac yn y blaen).

Bydd y Tribiwnlys yn egluro'r drefn ar ddechrau'r gwrandawiad. Yn y gwrandawiad, bydd panel y Tribiwnlys a'ch cynrychiolydd cyfreithiol yn cael cyfle i ofyn cwestiynau i'ch tîm gofal ac fel arfer byddant am siarad â chwithau hefyd. Nid oes yn rhaid i chi siarad yn y Tribiwnlys os nad ydych yn dymuno gwneud. Os hoffech chi adael y gwrandawiad ar unrhyw adeg, dywedwch wrth eich cynrychiolydd cyfreithiol neu rhowch wybod i banel y Tribiwnlys.

Pan fydd aelodau'r Tribiwnlys wedi gorffen gofyn cwestiynau a'ch bod chi, neu eich cynrychiolydd cyfreithiol, wedi crynhoi eich cais ar ddiwedd y gwrandawiad, byddant yn gofyn i bawb adael yr ystafell tra byddant yn gwneud eu penderfyniad. Fel arfer, byddant yn dweud wrthych beth yw eu penderfyniad ar y diwrnod, cyn gynted ag y byddant wedi gwneud y penderfyniad. Bydd copi o'r penderfyniad ysgrifenedig yn cael ei anfon atoch chi neu eich cynrychiolydd cyfreithiol yn fuan ar ôl y gwrandawiad.

Weithiau, ni fydd y Tribiwnlys yn gallu gwneud penderfyniad, er enghraifft am nad oes ganddo ddigon o wybodaeth. Mewn achos o'r fath, bydd y gwrandawiad yn cael ei ohirio a bydd dyddiad ac amser yn cael ei drefnu ar gyfer gwrandawiad newydd. Gweler y llyfryn canllaw MHRTW-07.

## Pwy fydd yng ngwrandawiad y Tribiwnlys?

Bydd tri o bobl ar banel y Tribiwnlys, sy'n cael eu hadnabod fel aelodau Cyfreithiol, Meddygol a Lleyg. Maent yn annibynnol ac nid oes gan yr un o'r aelodau gysylltiad â'r penderfyniad i'ch cadw yn yr ysbyty neu'r gorchymyn rydych yn destun iddo. Y bobl eraill sy'n debygol o fod yn bresennol yw eich meddyg, gweithiwr cymdeithasol, nyrs, cydlynydd gofal ac efallai aelodau o'ch teulu, os yw'r Tribiwnlys yn cytuno y cânt fod yn bresennol.

Yr aelod Cyfreithiol, sy'n gyfreithiwr neu Farnwr, sy'n llywyddu yng ngwrandawiad y Tribiwnlys. Mae'r aelod Meddygol yn Seiciatrydd. Mae gan yr aelod Lleyg brofiad fel arfer mewn materion iechyd meddwl, er enghraifft fel gweithiwr cymdeithasol. Bydd angen i aelod Meddygol y Tribiwnlys siarad â chi yn fuan cyn y gwrandawiad.

Os oes gennych chi eiriolydd (IMHA), gall yntau hefyd fod yno gyda chi i roi cefnogaeth i chi, ond nid oes ganddynt hawl i fynegi eu barn wrth y Tribiwnlys.

Weithiau, gall gweithiwyr proffesiynol iechyd meddwl, fel meddygon neu weithwyr cymdeithasol ofyn am gael bod yn bresennol yn y gwrandawiad fel arsylwyr, er mwyn dysgu am Dribiwnlysoedd. Os nad ydych chi eiriau arsylwyr yn eich gwrandawiad, dywedwch wrth eich cynrychiolydd cyfreithiol, eich eiriolydd (IMHA), neu banel y Tribiwnlys.

## A allaf fi ddod â rhywun gyda mi i'r gwrandawiad fel cefnogaeth?

Gallwch, os bydd y Tribiwnlys yn cytuno y gallwch ddod â pherson arall gyda chi, ond rhaid i chi roi gwybod i'r Tribiwnlys os bydd rhywun yn dod i'ch cefnogi drwy gwblhau ffurflen MHRTW-02. Ni fydd y Tribiwnlys yn talu eu costau teithio hwy ac ni chânt weithredu fel eich cynrychiolydd.

## Faint o amser a gymer fel arfer i'r Tribiwnlys gyhoeddi ei benderfyniad?

Fel arfer bydd y penderfyniad yn cael ei wneud ar y diwrnod, a bydd copi o'r penderfyniad ysgrifenedig yn cael ei anfon at eich cynrychiolydd cyfreithiol yn fuan ar ôl y gwrandawiad.

Weithiau, ni fydd y Tribiwnlys yn gallu gwneud penderfyniad, er enghraifft am nad oes ganddo ddigon o wybodaeth. Mewn achos o'r fath, bydd y gwrandawiad yn cael ei ohirio a bydd dyddiad ac amser yn cael ei drefnu ar gyfer gwrandawiad newydd. Fel arfer cytunir ar y dyddiad hwn yn y cyfarfod a ohiriwyd.

Os bydd y Tribiwnlys yn penderfynu na ddylech gael eich rhyddhau, mae hynny'n golygu y byddwch yn parhau i gael eich cadw o dan y Ddeddf neu o dan y Gorchymyn ar yr adeg honno. Nid yw'r penderfyniad hwn yn rhwystro eich meddyg rhag eich rhyddhau'n ddiweddarach. Er mwyn hwyluso eich rhyddhau, gall y Tribiwnlys wneud argymhellion bod eich meddyg yn caniatáu i chi gael eich rhyddhau am gyfnodau byr, y dylech gael eich trosglwyddo i ysbyty gwahanol, eich bod yn cael eich trosglwyddo i Warcheidiaeth, neu y dylai eich meddyg ystyried gwneud Gorchymyn Triniaeth Gymunedol (CTO, neu eich gwneud yn destun Adran 17a). Gall y Tribiwnlys wedyn ailystyried eich cais neu atgyfeiriad os na fydd yr argymhellion yn cael eu gweithredu.

Os bydd y Tribiwnlys yn penderfynu y gellir eich rhyddhau, bydd y penderfyniad i'ch cadw o dan y Ddeddf neu'r Gorchymyn yn cael ei ddiddymu. Gall eich Cynrychiolydd Cyfreithiol, eich eiriolydd, neu aelod o'ch tîm gofal egluro beth fydd yn digwydd nesaf. Weithiau gall y Tribiwnlys ohirio eich rhyddhau (gelwir hyn yn "rhyddhad gohiriedig"), er enghraifft, er mwyn gallu gwneud trefniadau ar gyfer gofal addas ar eich cyfer y tu allan i'r ysbyty.

## Beth os byddaf yn anghytuno â phenderfyniad y Tribiwnlys

Os byddwch yn anghytuno â phenderfyniad y Tribiwnlys gallwch apelio ond dim ond os yw'r Tribiwnlys wedi gwneud gwall cyfreithiol. Rhaid i chi wneud hyn o fewn 28 diwrnod ar ôl cael y penderfyniad ysgrifenedig. Bydd yn rhaid i chi wneud cais am ganiatâd i apelio i dribiwnlys uwch (y 'Uwch Dribiwnlys'). Gweler y llyfryn canllaw MHRTW-14 o dan dudalen 4 Ynghylch ein gwefan.

Os hoffech chi gwyno am y ffordd y cafodd y Tribiwnlys ei gynnal dylech ysgrifennu at Gadeirydd Tribiwnlys Adolygu Iechyd Meddwl Cymru yn y cyfeiriad a roddir uchod.

## Pwerau'r Tribiwnlys

Rhoddir y meini prawf cyfreithiol y mae'n rhaid i'r Tribiwnlys eu hystyried isod.

**Bydd y Tribiwnlys yn diddymu'r Adran neu'r Gorchymyn yr ydych yn destun iddo, os:**

**Adran 2 – Nid** yw'n fodlon:

- eich bod yn dioddef o anhwylder meddwl o natur neu ddifrifoldeb sy'n gofyn eich bod yn cael eich cadw mewn ysbyty ar gyfer asesiad neu asesiadau a ddilynir gan driniaeth, **neu**;
- bod eich cadw'n cael ei gyfiawnhau er mwyn eich iechyd neu eich diogelwch chi eich hun, gyda golwg ar ddiogelu eraill;

**Adrannau 3 neu 37 neu 37N - Nid** yw'n fodlon:

- eich bod yn dioddef o anhwylder meddwl o natur neu ddifrifoldeb sy'n ei gwneud yn briodol i chi gael eich cadw mewn ysbyty ar gyfer triniaeth feddygol, **neu**;
- ei bod yn angenrheidiol er mwyn eich iechyd neu eich diogelwch chi eich hun neu i ddiogelu eraill eich bod yn cael triniaeth feddygol o'r fath, **neu;**
- bod triniaeth feddygol briodol ar gael i chi **neu;**
- ble'r oedd y cais wedi'i wneud gan eich Perthynas Agosaf, *nid* yw'n fodlon pe byddech yn cael eich rhyddhau y byddech yn debygol o ymddwyn mewn ffordd sy'n beryglus i eraill neu i chi eich hun.

**Adran 17A - Nid** yw'n fodlon:

- eich bod yn dioddef o anhwylder meddwl o natur neu ddifrifoldeb sy'n ei gwneud yn briodol i chi gael eich cadw mewn ysbyty ar gyfer triniaeth feddygol, **neu**;
- ei bod yn angenrheidiol er mwyn eich iechyd neu eich diogelwch chi eich hun neu i ddiogelu eraill eich bod yn cael triniaeth feddygol o'r fath, **neu;**
- ei bod yn angenrheidiol y dylai'r Clinigwr Cyfrifol allu eich galw'n ôl i'r ysbyty **neu;**
- bod triniaeth feddygol briodol ar gael i chi;
- ble'r oedd y cais wedi'i wneud gan eich Perthynas Agosaf, *nid* yw'n fodlon pe byddech yn cael eich rhyddhau y byddech yn debygol o ymddwyn mewn ffordd sy'n beryglus i eraill neu i chi eich hun.

**Gorchmynion Gwarcheidiaeth (Adrannau 7 neu 37) - Nid** yw'n fodlon:

- nad ydych chi'n dioddef o anhwylder meddwl neu;
- ei bod yn angenrheidiol er mwyn eich lles chi neu i ddiogelu eraill y dylech barhau'n destun Gwarcheidiaeth.

Mewn amgylchiadau neilltuol, ac os ydych chi'n cael eich cadw o dan Adran 3, neu 17A, neu 37, mae gan y Tribiwnlys bŵer ychwanegol i ddiddymu'r Adran neu'r Gorchymyn hyd yn oes os na chydymffurfir â'r meini prawf cyfreithiol uchod. Gelwir hyn yn bŵer disgresiwn.

**Adran 37/41 neu Adran 5 CPI (cyfyngu)**
Bydd y Tribiwnlys yn eich rhyddhau'n amodol ar amodau os **nad** yw'n fodlon:

- eich bod yn dioddef o anhwylder meddwl o natur neu ddifrifoldeb sy'n ei gwneud yn briodol i chi gael eich cadw mewn ysbyty ar gyfer triniaeth feddygol, **neu**;

- ei bod yn angenrheidiol er mwyn eich iechyd neu eich diogelwch chi eich hun neu i ddiogelu eraill eich bod yn cael triniaeth feddygol o'r fath, **neu;**

- bod triniaeth feddygol briodol ar gael i chi ***ac;***

**Ei fod** yn fodlon:

- y dylech fod yn agored i gael eich galw'n ôl i'r ysbyty ar gyfer triniaeth bellach.

Os nad yw'r Tribiwnlys yn fodlon y dylech barhau'n agored i gael eich galw'n ôl i'r ysbyty i gael triniaeth bellach, bydd yn eich rhyddhau'n ddiamod.

**Adran 41 (Rhyddhad Amodol)**

Gall y Tribiwnlys amrywio'r amodau y byddwch yn amodol arnynt, neu os nad yw'n fodlon y dylech barhau'n agored i gael eich galw'n ôl i'r ysbyty i gael triniaeth bellach, bydd yn eich rhyddhau'n ddiamod.

**Cyfarwyddiadau Cyfyngu (e.e. Adran 47/49 trosglwyddo o garchar)**

Nid oes gan y Tribiwnlys bŵer i'ch rhyddhau. Ni all ond hysbysu'r Weinyddiaeth Cyfiawnder o'r hyn y byddai'n wneud pe bai ganddo bŵer o'r fath. Mae gan yr Ysgrifennydd Gwladol naw deg diwrnod i ystyried canfyddiadau'r Tribiwnlys.

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg.

Mae'r Tribiwnlys Adolygu Iechyd Meddwl Cymru yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg neu yn Saesneg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. Mae'r tribiwnlys hefyd yn croesawu galwadau ffôn yn Gymraeg neu yn Saesneg.

Gallwch chi gyflwyno ffurflenni, dogfennau a chyflwyno sylwadau ysgrifenedig i'r tribiwnlys yn Gymraeg neu'n Saesneg.